



Department
for Environment
Food & Rural Affairs



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Scottish Government
Riaghaltas na h-Alba
gov.scot



Department of
**Agriculture, Environment
and Rural Affairs**

www.daera-ni.gov.uk

Strategaeth Amrywogaethau a Hadau Planhigion - Galwad am syniadau

| | |
|--|---|
| Y cefndir..... | 3 |
| Gwahodd eich barn..... | 3 |
| Y weledigaeth arfaethedig | 3 |
| Y deilliannau arfaethedig | 4 |
| Cwestiynau | 4 |
| Cyflwyniad | 4 |
| Y weledigaeth arfaethedig | 4 |
| Y deilliannau arfaethedig | 5 |
| Cwestiynau cyffredinol..... | 6 |
| Mentrau rhyngwladol a diwydiant | 6 |
| Gwerth PVS..... | 7 |
| Atodiad I Cyfrinachedd a gwybodaeth diogelu data | 8 |

Y cefndir

Mae maes polisi Amrywogaethau a Hadau Planhigion (PVS) yn cynnwys Hawliau Amrywogaethau Planhigion (hawliau eiddo deallusol bridwyr planhigion), cofrestru amrywogaethau o blanhigion (rhestrau cenedlaethol), gosod safonau ar gyfer marchnata ac ardystio hadau a deunyddiau lluosogi planhigion eraill a sicrhau bod y safonau hyn yn cael eu cadw.

Mae Defra, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru a DAERA yn cydweithio i ddatblygu Strategaeth PVS i'r Deyrnas Unedig a fydd yn ymestyn dros bum mlynedd. Dyma fydd y strategaeth gyntaf ym maes PVS a bydd datblygu hon yn gyfle i ymgysylltu â rhanddeiliaid yn y diwydiant a rhanddeiliaid eraill i osod gweledigaeth gyffredin, blaenoriaethau, a chamau i'w cymryd i gyflawni'r rhain.

Rydyn ni'n bwriadu i'r strategaeth fod yn fodd o bennu cyfeiriad a darparu fframwaith cyffredinol i helpu i osod blaenoriaethau a rhoi eglurder.

Gwahodd eich barn

Rydyn ni'n awyddus i wahodd syniadau o bob rhan o'r diwydiant yn gynnwys i'w bwydo i mewn i'n strategaeth. Mae'r alwad hon am syniadau yn ceisio casglu'r cyfraniadau cychwynnol ac rydyn ni'n bwriadu parhau i ymgysylltu drwy gydol y broses.

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu gweledigaeth arfaethedig ar gyfer maes polisi PVS a'r deilliannau yr hoffem eu gweld. Rydym yn croesawu'ch barn am y rhain yn ogystal ag ar syniadau ar gyfer camau a all helpu i'w cyflawni. Gallwch ymateb ar-lein [yma](#) neu anfon ymatebion ysgrifenedig i Defra-Plant-Varieties-and-Seeds@defra.gov.uk.

Bydd yr alwad am syniadau yn agored rhwng 26 Medi a 19 Rhagfyr. Bydd yr adborth a fydd yn cael ei gasglu o'r alwad hon am syniadau yn cael ei ddefnyddio i ddrafftio'r strategaeth gyntaf ynghylch Amrywogaethau a Hadau Planhigion. Bydd yr ymgysylltu â'r rhanddeiliaid yn parhau drwy gydol y broses o ddatblygu'r strategaeth a bydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal pan fydd drafft cychwynnol yn barod.

Y weledigaeth arfaethedig

Caniatáu sector bridio planhigion ffyniannus a deinamig sy'n gallu ateb heriau a chyfleoedd byd sy'n newid.

Cynnal safonau cymesur ynglŷn ag ansawdd a marchnata ar gyfer hadau a deunyddiau lluosogi eraill i sicrhau marchnad fewnol sy'n gweithio'n dda.

Cynnal a gwella enw da byd-eang y Deyrnas Unedig mewn safonau bridio a marchnata planhigion.

Y deilliannau arfaethedig

1. System sy'n ateb pob un o amcanion llywodraethau'r Deyrnas Unedig nawr ac yn y dyfodol gan gynnwys ar yr amgylchedd, newid hinsawdd a diogelwch bwyd.
2. Bod safonau a chynlluniau rhyngwladol yn adlewyrchu blaenoriaethau cyffredin y Deyrnas Unedig.
3. Bod y Deyrnas Unedig yn cael ei gweld fel opsiwn deniadol a sefydlog i ddatblygu amrywogaethau newydd o blanhigion i'r farchnad a dod â nhw i'r farchnad.
4. Trefn reoleiddio dryloyw a hygyrch sy'n adlewyrchu'r angen i ymyrryd yn y farchnad mewn gwahanol sectorau.
5. System gyflenwi ymatebol, sy'n gallu addasu i fentrau newydd mewn bridio a masnachu planhigion, gan ddarparu gwasanaethau effeithlon sy'n rhoi gwerth am arian.
6. Gweithio mewn partneriaeth â'r rhanddeiliaid ar ddatblygu a chyflwyno polisïau a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i rannu cyfrifoldebau.

Cwestiynau

Cyflwyniad

Bydd yr holl wybodaeth a gesglir yn cael ei thrin fel yr amlinellir yn [Siarter Gwybodaeth Bersonol Defra](#): gofalwch eich bod wedi darllen a deall hon cyn ichi ymateb.

1. Hoffech chi i'ch ymateb fod yn gyfrinachol? Os byddwch chi'n ateb 'Hoffwn' i'r cwestiwn hwn, rhowch eich rheswm (mae rhagor o wybodaeth yn Atodiad I).
2. Beth yw'ch enw chi?
3. Beth yw'ch cyfeiriad ebost chi?
4. Beth yw'ch sefydliad chi?
5. Ydych chi'n fodlon inni gysylltu â chi ynghylch eich ymatebion?

Y weledigaeth arfaethedig

Caniatáu sector bridio planhigion ffyniannus a deinamig sy'n gallu ateb heriau a chyfleoedd byd sy'n newid.

Cynnal safonau cymesur ynglŷn ag ansawdd a marchnata ar gyfer hadau a deunyddiau lluosogi eraill i sicrhau marchnad fewnol sy'n gweithio'n dda.

Cynnal a gwella enw da byd-eang y Deyrnas Unedig mewn safonau bridio a marchnata planhigion.

6. Yn eich barn chi, ydy'r weledigaeth yn ymdrin â'r set gywir o swyddogaethau blaenoriaeth ar gyfer maes polisi PVS?

Y deilliannau arfaethedig

System sy'n ateb pob un o amcanion llywodraethau'r Deyrnas Unedig nawr ac yn y dyfodol gan gynnwys ar yr amgylchedd, newid hinsawdd a diogelwch bwyd.

Bod safonau a chynlluniau rhyngwladol yn adlewyrchu blaenoriaethau cyffredin y Deyrnas Unedig.

Bod y Deyrnas Unedig yn cael ei gweld fel opsiwn deniadol a sefydlog i ddatblygu amrywogaethau newydd o blanhigion i'r farchnad a dod â nhw i'r farchnad.

Trefn reoleiddio dryloyw a hygyrch sy'n adlewyrchu'r angen i ymyrryd yn y farchnad mewn gwahanol sectorau.

System gyflenwi ymatebol, sy'n gallu addasu i fentrau newydd mewn bridio a masnachu planhigion, gan ddarparu gwasanaethau effeithlon sy'n rhoi gwerth am arian.

Gweithio mewn partneriaeth â'r rhanddeiliaid ar ddatblygu a chyflwyno polisiâu a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i rannu cyfrifoldebau.

7. Yn eich barn chi, a oes unrhyw beth pwysig ar goll o'r canlyniadau arfaethedig?

8. A ddylai'r canlyniadau hyn fod yn feysydd ffocws blaenoriaeth i'r Deyrnas Unedig?

9. Ar gyfer pob canlyniad, rhowch syniadau ar gyfer gweithredoedd a allai ei gyflawni.

10. Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ar y canlyniadau?

Cwestiynau cyffredinol

11. Beth sy'n gweithio'n dda ym maes PVS y dylid adeiladu arno (yn llywodraethau'r Deyrnas Unedig)?
12. Beth sy'n gweithio'n dda ym maes PVS y dylid ei adeiladu arno (yn y diwydiant)?
13. Beth allai gael ei wella ym maes PVS (yn llywodraethau'r Deyrnas Unedig)?
14. Beth allai gael ei wella ym maes PVS (yn y diwydiant)?
15. Sut byddai'n well gennych ymgysylltu â'r broses o ddatblygu'r strategaeth?
 - a. Ymatebion ysgrifenedig
 - b. Cyfarfodydd ehangach y grŵp rhanddeiliaid
 - c. Arall (rhowch fanylion)
 - d. Byddai'n well gennyf beidio â chysylltu â mi
16. Fel rhan o gyflwyno polisiau PVS o ddydd i ddydd sy'n gofyn am fewnbwn rhanddeiliaid, sut byddai'n well gennych ymgysylltu?
 - a. Ymatebion ysgrifenedig
 - b. Cyfarfodydd ehangach y grŵp rhanddeiliaid
 - c. Arall (rhowch fanylion)
 - d. Byddai'n well gennyf beidio â chysylltu â mi
17. Sut yn eich barn chi y dylai llywodraethau'r Deyrnas Unedig fynegi'r strategaeth i fusnesau a'r diwydiant ehangach?

Mentrau rhyngwladol a diwydiant

Mae'r adran hon yn cyfeirio at fenter deunydd atgenhedlu planhigion a choedwigoedd (rheolau diwygiedig), mae manylion am hyn i'w gweld [yma](#).

18. A oes cynigion yn yr UE Planhigion a deunydd atgenhedlu coedwigoedd (rheolau diwygiedig) yr hoffech eu gweld yn y Deyrnas Unedig?
19. Oes unrhyw fentrau rhyngwladol neu ddiwydiant eraill ym maes PVS yr hoffech i ni fod yn ymwybodol ohonynt?

Gwerth PVS

Gellir defnyddio gwybodaeth a ddarperir yma yn adran ragarweiniol y strategaeth i ddangos gwerth PVS.

1. **Cyfeiriwch unrhyw ddata diddorol neu ddefnyddiol ar werth economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol maes PVS. Gallwch ddarparu dolen neu ddogfennau e-bost i Defra-Plant-Varieties-and-Seeds@defra.gov.uk.**

Atodiad I Cyfrinachedd a gwybodaeth diogelu data

1. Bydd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Llywodraeth yn: www.gov.uk/defra. Bydd atodiad i'r crynodeb o'r ymgynghoriad yn rhestru'r holl sefydliadau a ymatebodd ond ni fydd yn cynnwys enwau personol, cyfeiriadau neu fanylion cyswllt eraill.

1.1 Gall Defra gyhoeddi cynnwys eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn er mwyn trefnu ei fod ar gael i'r cyhoedd heb eich enw personol a'ch manylion cyswllt preifat (er enghraifft cyfeiriad cartref, cyfeiriad ebost, etc).

1.2 Os byddwch yn clicio ar 'Hoffwn' mewn ymateb i'r cwestiwn yn gofyn a hoffech i unrhyw beth yn eich ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, gofynnir ichi ddweud yn glir pa wybodaeth yr hoffech ei chadw'n gyfrinachol ac egluro'ch rhesymau dros gyfrinachedd. Y rheswm am hyn yw y gall gwybodaeth mewn ymatebion i'r ymgynghoriad hwn fod ar dir i'w rhyddhau i'r cyhoedd neu bartïon eraill yn unol â'r gyfraith ar weld gwybodaeth (sef yn bennaf Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (EIRs), Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (Deddf 2000) a Deddf Diogelu Data 2018 (Deddf 2018)). Mae arnon ni rwymedigaethau, yn bennaf o dan yr EIRs, Deddf 2000 a Deddf 2018, i ddatgelu gwybodaeth i dderbynwyr penodol neu i'r cyhoedd mewn rhai amgylchiadau. O gofio hyn, byddai'ch esboniad chi o'ch rhesymau dros ofyn am gyfrinachedd i'ch ymateb cyfan neu ran ohono yn ein helpu i gydbwysu'r rhwymedigaethau hyn ynglŷn â datgelu yn erbyn unrhyw rwymedigaeth ynglŷn â chyfrinachedd. Os cawn ni gais am yr wybodaeth rydych chi wedi'i darparu yn eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn, byddwn yn rhoi ystyriaeth lawn i'ch rhesymau dros ofyn am gyfrinachedd i'ch ymateb, ond allwn ni ddim gwarantu bod modd cadw cyfrinachedd o dan bob amgylchiad.

1.3 Os byddwch yn clicio ar 'Na hoffwn' mewn ymateb i'r cwestiwn yn gofyn a hoffech i unrhyw beth yn eich ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, byddwn yn gallu rhyddhau cynnwys eich ymateb i'r cyhoedd, ond fyddwn ni ddim yn trefnu bod eich enw personol a'ch manylion cysylltu preifat ar gael i'r cyhoedd.

1.4 Gall fod adegau pan fydd Defra yn rhannu'r wybodaeth rydych chi'n ei rhoi mewn ymateb i'r ymgynghoriad, gan gynnwys unrhyw ddata personol, gyda dadansoddwyr allanol. Er mwyn dadansoddi ymatebion i'r ymgynghoriad a darparu adroddiad o'r crynodeb o'r ymatebion yn unig y gwneir hyn.

1.5 Mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal yn unol â dogfen Swyddfa'r Cabinet "Consultation Principles" ac mae ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance>.

1.6 Gallwch weld ein hysbysiad preifatrwydd diweddaraf wedi'i uwchlwytho fel dogfen berthynol ochr yn ochr â'n dogfen ymgynghori.

1.7 Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwynion am y broses ymgynghori, anfonwch nhw at:

[Consultation Title]

Consultation Coordinator, Defra

2nd Floor, Foss House, Kings Pool,

1-2 Peasholme Green, York, YO1 7PX

Neu anfonwch neges ebost: consultation.coordinator@defra.gov.uk